

Mae popeth mor fawr â'r enaid

“Deffro, O wynt y gogledd, a thyrd, O wynt y de; chwyth ar fy ngardd i wasgaru ei phersawr. Doed fy nghariad i’w ardd, a bwyta ei ffrwyth gorau.” (adn. 16)

Beth am ddarllen Caniad Solomon 4:8–16 ac yna myfyrio

Yr ydym bron ar ddiwedd ein myfyrdod ar yr eglwys yn Antiochia. Roedd hon yn eglwys arbennig iawn. Dywed un esboniwr: “Os bydd i ti dorri hanes Antiochia allan o’r Testament Newydd, yr wyt yn torri allan galon lledaeniad Cristnogaeth i mewn i’r byd. Mi fyddai’n rhaid i ti ailysgrifennu hanes y byd, gan ei ailysgrifennu heb yr eglwys fwyaf effeithiol a ffrwythlon a fu yn y byd erioed.”

Yr ydym yn byw mewn cyfnod cyffrous anghyffredin. Yr ydym yn wynebu mileniwm newydd a chanrif newydd gyda neges dragwyddol yr Efengyl. Yr ydym yn wynebu erledigaeth, sydd, nid yn gymaint yn erledigaeth gorfforol, ond yn erledigaeth ysbrydol, gan “*nas cenfydd llygad natur*” ogoniant yr Efengyl. Does ond gwaith Ysbryd Glân Duw all agor calonnau ac agor llygaid, a pheri i glustiau nad ydynt yn clywed glywed neges fendigedig yr Arglwydd Iesu Grist.

Mae’r dyfodol yn her real i’r eglwys Gristnogol. Mae anawsterau’n gorwedd yn ein dyfodol. A ydym am droi yr anawsterau hynny yn gyfleon cenhadol? A oes gennym yr hyder yn yr Efengyl i sicrhau bod enw Iesu yn cael ei gyhoeddi yn ein dydd mewn ffordd sydd yn berthnasol ac sydd yn dyrchafu ei waith ef? Wrth ddiolch am eglwys Antiochia, yr ydym yn ymwybodol fod ein cenhedlaeth ni yn edrych am eglwysi cyffelyb, eglwysi sydd yn cynrychioli Crist mewn ffordd real, mewn ffordd berthnasol; eglwysi sydd yn effeithio yn drwm ar eu cymunedau.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Can. Sol. 2:10–13; Salm 126:1–6; Esec. 37:1–14; Math. 13:31–33

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. A all yr Eglwys heddiw fyw?
2. Ym mha ffordd y gellir dweud fod gan yr Eglwys waith mawr i’w gyflawni?

Gweddi

O Dduw, rwy’n gofyn â’m holl galon, cychwyn dy waith ynof fi. Bywha fi a bywha dy waith o fewn dy Eglwys, fel y bydd i ni wrth dy addoli ac wrth dy wasanaethu, weld dy Ysbryd yn newid ein cymunedau, yn newid ein gwlad, ac yn newid ein byd. Amen.